## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, ar Ddydd Mercher, 19eg Ebrill, 2000 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M.Ll. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, R.W. Hughes, G. Jones, N.H. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams (dirprwy ar ran E.W. Williams), P.O. Williams, ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol, Pen Swyddog Cynllunio (De) Swyddog Cynllunio Cynorthwyol (P. Mead) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D.W. Davies, K.P. Stevens, ac E.W. Williams.

### 1082. CROESO

Croesawodd yr Aelodau yr Aelod newydd dros Ddwyrain Y Rhyl, y Cynghorydd P.M. Jones i'w Phwyllgor Cynllunio cyntaf.

### 1083 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/1999/593/PF | Codi dau bortsh ar y blaenluniau yng Ngwesty Park Place, 2 Stryd Mwrog, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 05/1999/525/PF | (Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru, Pensaer Tirwedd a Swyddog Llwybrau).<br>Codi twr telathrebu 25m a gosod 8 antena sector, 4 antena dysgl, 2 gaban cyfarpar, uwchraddio llwybr mynediad yng Ngorsaf Drosglwyddo NTL, Glyndyfrdwy, Corwen.<br>YN AMODOL ar yr amod diwygiedig rhif 2, amod newydd rhif 3 a nodyn i'r ymgeisydd sy'n dilyn:-<br>2. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl plannu coed/tirlunio ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae'r cynllun hwnnw i gynnwys manylion:- |

(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sydd ar y safle ar hyn o bryd, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a mesurau ar gyfer eu diogelu yn ystod y datblygu;
(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad o'u rhywogaeth, eu niferoedd a'u lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;
(c) cloddio, graddio a phentyrru tir a newidiadau yn y lefelau sydd yn yr arfaeth, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrru arfaethedig â'r llystyfiant presennol a'r dirffurf o gwmpas, a
(d) lleoliadau arfaethedig, dyluniad, deunyddiau a'r math o ffens derfyn.

RHESWM - Er mwyn amwynder gweledol.

3. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi wal neu driniaeth arall sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio cymeradwyedig i'w wneud yn y tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl adeiladu'r mast ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad yn marw, yn cael eu symud oddi yno neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.

RHESWM - Er mwyn amwynder gweledol.

Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir i gysylltu â Phennaeth Priffyrdd y Cyngor cyn gwneud unrhyw waith ar y fynedfa gan yr ymddengys fod angen Trwydded Gwaith Stryd mewn cysylltiad â'r gwelliannau i'r llwybr mynediad ble mae'n ffurfio rhan o ffordd yn gyfochrog â Llwybr Troed 68.

05/2000/185/PF

(Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 28ain Ebrill, 2000).

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Grŵp Mynediad Sir Ddinbych, Pennaeth Priffyrdd a Phennaeth Gwarchod y Cyhoedd).

Newid defnydd siop (Dosbarth A1) i greu lle prydau parod (Dosbarth A3) yn Siop y Crown, Y Sgwâr, Corwen.

YN AMODOL ar y nodyn newydd canlynol i'r ymgeisydd:-

Nodyn - Tynnir eich sylw at y cais gan Grŵp Mynediad Sir Ddinbych bod ymdrechion priodol i'w gwneud i sicrhau ei bod yn bosibl i bobl anabl gael mynediad at yr adeilad, yn unol â gofynion y Rheoliadau Adeiladu.

06/2000/145/PF

Codi 3 tŷ teras a 4 annedd pâr, creu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr a gwaith cysylltiedig (Rhan 1) ar Dir gyferbyn â Pen y Lan, Gwyddelwern, Corwen.

YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig rhif 5 a 6 a nodyn newydd i'r ymgeisydd sy'n dilyn:-

5. Nid oes neb i fyw yn yr un o'r anheddau a gymeradwyir drwy hyn hyd nes y bydd y fynedfa at yr A494 a'r troedffyrdd cysylltiedig a'r rhan honno o ffordd y stad sy'n rhoi mynediad atynt wedi'u hadeiladu at safon cwrs gwaelodol fan leiaf o'i chyffordd â'r A494T, yn cynnwys ymylfeini a'r holl garthffosiaeth, ac mae'r cwrs treulio terfynol i'w osod cyn i neb fyw yn y ddwy annedd olaf, i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

RHESWM - sicrhau bod mynedfa addas ddiogel a digonol yn cael ei hadeiladu ar gyfer y safle.

6. Nid yw'r tirlunio a'r wal sgrinio/ffensio i fod fel y dangosir ar Luniad 37/18/1 Rev A y caniatâd hwn, ond mae i fod fel a all gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r cynllun cymeradwyedig i'w gyflawni fesul tipyn trwy

gydol y datblygu wrth i'r adeiladu fynd rhagddo a beth bynnag, mae'r tirlunio a ddangosir mewn perthynas ag unrhyw annedd neilltuol i'w wneud cyn diwedd y tymor plannu cyntaf ar ôl cwblhau'r annedd honno. Mae unrhyw goed neu blanhigion sydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd i'r plannu cyntaf, yn marw, yn cael eu symud oddi yno neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i unrhyw amrywiad.
RHESWM - sicrhau safon datblygiad foddhaol, er mwyn amwynder gweledol.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch hysbysir mai barn Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yw bod ffurf a dwysedd y datblygiad a ddangosir ar weddill y tir, y tu allan i'r safle y rhoddir caniatâd iddo drwy hyn, yn annerbyniol, ac fe ddylech gysylltu â'r Swyddog Achos yn yr Adain Gwasanaethau Cynllunio i drafod y materion sy'n codi cyn cyflwyno unrhyw gais pellach.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd N.H. Jones yn erbyn yr eitem hon).

22/2000/078/PF (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llangynhafal).
Addasu tai allan yn 3 uned breswyl gyda garejis ac adeiladau storio cysylltiedig, lleoedd parcio, llwybr mynediad newydd ac adeiladu cyfarpar trin carthion preifat yn y Ty Allan yn Plas yn Rhos, Llanychan, Rhuthun, Sir Ddinbych.

22/2000/118/PODatblygu 0.1hectar o dir drwy godi annedd, creu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc carthion newydd (cais amlinellol) ar dir yn gyfagos i'r Hen Ysgubor, Gellifor, Rhuthun, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod newydd canlynol rhif 5:-
5. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn hyd nes y bydd y fynedfa wedi'i chwblhau yn unol â'r cynlluniau manwl hynny a gaiff eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac a gaiff eu cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, fel rhan o'r cais (ceisiadau) a gadwyd yn ôl.
RHESWM - sicrhau bod y safle wedi'i wasanaethu gan fynedfa foddhaol.

30/1999/942/PF (Ar ôl ystyried map lleoliad diwygiedig a gylchredwyd yn y cyfarfod).
Newid defnydd rhan o dir amaethyddol cyfagos i ffurfio estyniad i'r cwrtil preswyl a chodi garej driphlyg a storfa unllawr to serth gyda llawr caled cysylltiedig yn 2 Pen y Graig Cottages, Trefnant, Dinbych, Sir Ddinbych.

42/2000/099/PF Codi adeilad deulawr i storio deunyddiau adeiladu, swyddfeydd cysylltiedig ayb.; darparu cyfleusterau glanhau a golchi, ffurfio toiled ac ystafell generadur, lle caeëdig i storio olew; darparu adeiladau cludadwy i'w defnyddio fel ystafell staff; darparu tyrau teledu cylch caeëdig; creu lleoedd parcio i'r staff a chwsmeriaid ac arwynebu'r llwybr mynediad at y safle ac at le agored cyhoeddus cyfagos; codi giatiau electronig dwbl (diwygiad i gais blaenorol Rhif 42/210/99/PF) (yn rhannol ôl-weithredol) yn Anglia House, Station Yard, Ffordd Trelawnyd, Diserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod newydd canlynol rhif 4:-

4. Mae'r lleoedd parcio i'w marcio'n unol â'r cynllun safle diwygiedig cymeradwyedig o fewn 3 mis i ddyddiad hysbysiad y penderfyniad hwn ac i'w cadw ar gael at y diben hwnnw bob amser.
Rheswm: Fel bod cyfleusterau parcio digonol ar gael o fewn cwrtil y safle.
(Dylid nodi bod y Cynghorydd N. Hugh Jones wedi atal ei bleidlais ar y cais hwn)

43/2000/115/PF

(Datganodd I.K. Hearle ddiddordeb yn y cais canlynol).
Codi estyniad llawr cyntaf to serth ac estyniad cefn to serth a ffurfio ffenestri dormer ar y cefnlun yn 50 West Avenue, Prestatyn, Sir Ddinbych.

45/2000/113/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl).
Newid defnydd o Ddosbarth B2 (diwydiannol cyffredinol) yn Ddosbarth B8 (storio a dosbarthu) gyda man gwerthiannau adwerthol atodol ac estyniad unllawr wrth ochr ac yng nghefn yr uned yn 121 Marsh Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amodau newydd canlynol rhif 5 a 6:-
5. Nid yw defnydd yr adeiladau a ganiateir drwy hyn, yn cynnwys danfoniadau/llwytho, i ddigwydd y tu allan i'r oriau 0800 o'r gloch - 1800 o'r gloch dydd Llun i ddydd Sadwrn, nac ar unrhyw adeg ar ddydd Sul neu ar Wyliau Banc.
(Rheswm: Er mwyn amwynder preswyl gerllaw)
6. Nid oes dim cerbydau sy'n pwyso mwy na 7.5 tunnell yn eu crynswth i ddefnyddio'r safle ar unrhyw adeg.
(Rheswm: Er mwyn amwynder preswyl a diogelwch y ffordd fawr)

45/2000/127/PF

Adnewyddu cais Cyfeirnod 2/RYL/85/94 yn cynnwys estyniad i ddarparu llety byw hunangynhwysol (1 nifer annedd) yng Nghlwb Pêl-Droed Y Rhyl Belle Vue, Grange Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 3:-
3. Rhoi "caniateir dan ddarpariaethau Dosbarth A Rhan 2 neu unrhyw estyniad a ganiateir dan ddarpariaethau Dosbarth A Rhan 1", ar ôl y gair "adeileddau".

47/1999/298/PF

Addasu ac estyniadau i adeilad amaethyddol i greu un annedd ar Fferm y Waen, Waen, Llanelwy, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod newydd canlynol rhif 5:-
5. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi wal neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio cymeradwyedig i'w wneud yn y tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl i rywun fyw yn yr annedd ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu symud oddi yno neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

<u>Rhif y Cais</u> — <u>Disgrifiad a Lleoliad</u>

02/1999/594/LB

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth y Cyngor Archeoleg Prydeinig).
Dymchwel dau bortsh a chodi dau bortsh ar y blaenluniau ac addasiadau mewnol i'r ty tafarn yng Ngwesty Park Place, Stryd Mwrog, Rhuthun, Sir Ddinbych.

47/1999/837/LB — Rhannol ddymchwel, addasu ac estyniadau i adeilad amaethyddol i greu un annedd yn Fferm y Waen, Waen, Llanelwy, Sir Ddinbych.

(iii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 12/2000/102/PF | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 28ain Ebrill, 2000).<br>(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Asiant yr Ymgeisydd - cais am ohiriad).<br>Codi annedd ar ei phen ei hun a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar Lain 1, Tir Gyferbyn â'r Gyfnewidfa Ffôn, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 12/2000/183/PO | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 21ain Ebrill, 2000).<br>(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Asiant yr Ymgeisydd yn gofyn am ohiriad, Mr A a Mrs P.L. Warburton, 4 Crud yr Awel, Clawddnewydd ac N.P. Davies, 5 Crud yr Awel, Clawddnewydd).<br>Datblygu tir drwy godi 2 annedd (cais amlinellol) ar Dir yn Gyfagos i'r Gyfnewidfa Ffôn, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych. |

(*b*) *Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion bod y cais canlynol i'w WRTHOD am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 45/2000/215/AD | (Datganodd y Cynghorwyr F. Shaw, W.G. Thomas a P. Douglas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawsant y Siambr tra oeddid yn ei ystyried).<br>(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl).<br>Cadw 2 nifer o arwyddion ar eu traed eu hunain (cais ôl-weithredol) ar Gaeau Chwarae yn wynebu Ffordd Tynewydd, Ysgol Uwchradd Y Rhyl, 86 Grange Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>ystyrir bod yr arwydd yn mynd â sylw traffig sy'n teithio ar hyd Grange Road.<br>(Pleidleisiodd y Cynghorwyr N. Hugh Jones ac S. Thomas o blaid rhoi caniatâd hysbyseb ac ataliodd y Cynghorydd N. Hughes ei bleidlais) |

*(c)* *Bod y cais canlynol i'w ohirio am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 22/2000/051/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth yr Ymgeisydd yn gofyn am ohiriad).<br>Codi estyniad i'r annedd bresennol yn Green Cottage, Gellifor, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>RHESWM - gohiriwyd ar gais yr Ymgeisydd er mwyn cael cyflwyno cynllun diwygiedig. |

(ch) *Bod y cais canlynol i'w ohirio er mwyn gallu ymweld â'r safle am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 45/2000/163/PF | Codi estyniad llawr cyntaf dros y balconi presennol, codi estyniad to serth unllawr a pharhau'r to serth dros y to gwastad presennol yng nghefn y ty annedd yn 51 Rosehill Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>(Er mwyn i'r Aelodau gael y cyfle i ystyried effaith y datblygiad ar dai cyfagos) |

**1084. CEISIADAU CYNLLUNIO 3/740/97/PF A 3/846/97/PF - TIR YN FFORDD Y FICERDY, LLANGOLLEN**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig yn gofyn i'r ddau gais cynllunio uchod yn ymwneud â datblygiad preswyl arfaethedig tir yn Ffordd y Ficerdy, Llangollen gael eu penderfynu a'i argymhellion ar hynny.

*(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth "Save our Green Fields").*

***PENDERFYNWYD** cadarnhau argymhellion Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio fel y'u cynhwysir o fewn ei adroddiad, a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiadau a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar*

*(a) yr 'Amodau' a'r 'Nodiadau I Ymgeiswyr' a nodir o fewn adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, (fel y'u diwygiwyd isod);*

*(b) bod y datblygwr yn llunio cytundeb Adran 106 i:-*

- *lunio bond am y swm o £46,870; (Mynegrifedig);*
- *adnewyddu Willow House yn unol â Chaniatâd Adeilad Rhestredig dim hwyrach nag anheddiad neu gwblhad yr 8fed annedd neu 2 flynedd, o'r dyddiad y dechreuir y datblygiad;*
- *peidio â dymchwel y Coach House hyd nes y bydd contractau wedi'u cyfnewid ar gyfer adnewyddu Willow House, a*
- *gwahardd symudiad contractwyr/cerbydau adeiladu sy'n ceisio mynediad yn ôl ac ymlaen at safle'r cais ar hyd Stryd yr Allt a'i chyffordd â Ffordd y Ficerdy.*

| *Rhif y Cais* | *Disgrifiad a Lleoliad* |
|---|---|
| *3/740/97/PF* | *Codi 47 o anheddau ar wahân, creu mynedfeydd newydd i gerbydau a cherddwyr ar dir yn agos i Ffordd y Ficerdy, Llangollen, Sir Ddinbych.*<br>*YN AMODOL ar yr Amod diwygiedig rhif 7 a'r Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd sy'n dilyn*<br>*7. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun tirlunio, sydd i gynnwys arwyddion o'r holl goed a gwrychoedd sydd ar y tir ar hyn o bryd, yn cynnwys y rheini sydd i'w cadw, wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo; mae'r cynllun tirlunio i ddarparu ar gyfer plannu gwrych y tu ôl i'r droedffordd ar hyd y ffordd fynediad newydd (wedi'i hymylu'n wyrdd ar y cynllun sydd ynghlwm) rhwng mannau A a B ar y cynllun i gynnwys y fath faint a rhywogaeth sydd i'w cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol*<br>*RHESWM: Sicrhau bod golwg y datblygiad yn foddhaol er mwyn amwynder gweledol.* |

*Nodyn i'r Ymgeisydd: Fe'ch hysbysir o bwysigrwydd y safle fel cynefin bywyd gwyllt, a gofynnir yn barchus ichi gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Ffôn 01352 706600) neu Ecolegydd Cyngor Sir Ddinbych (Ffôn 01824 708074) i sicrhau bod mesurau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd hwn.*

*03/846/97/PF* — *Codi Tair Annedd a chreu mynedfeydd newydd i gerbydau a cherddwyr yn Ffordd y Ficerdy (Lleiniau 48, 49 & 50 Tir yn agos i), Llangollen, Sir Ddinbych.*

*YN AMODOL ar yr Amod diwygiedig rhif 7 a'r Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd sy'n dilyn*

*7. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun tirlunio, sydd i gynnwys arwyddion o'r holl goed a gwrychoedd sydd ar y tir ar hyn o bryd, yn cynnwys y rheini sydd i'w cadw, wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo; mae'r cynllun tirlunio i ddarparu ar gyfer plannu gwrych y tu ôl i'r droedffordd ar hyd y ffordd fynediad newydd (wedi'i hymylu'n wyrdd ar y cynllun sydd ynghlwm) rhwng mannau A a B ar y cynllun i gynnwys y fath faint a rhywogaeth sydd i'w cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol*

*RHESWM: Sicrhau bod golwg y datblygiad yn foddhaol er mwyn amwynder gweledol.*

*Nodyn i'r Ymgeisydd: Fe'ch hysbysir o bwysigrwydd y safle fel cynefin bywyd gwyllt, a gofynnir yn barchus ichi gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Ffôn 01352 706600) neu Ecolegydd Cyngor Sir Ddinbych (Ffôn 01824 708074) i sicrhau bod mesurau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd hwn.*

**1085. <u>ADRODDIAD CYNNYDD - HEN SAFLE YSBYTY DINBYCH</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn hysbysu'r Aelodau o'r sefyllfa bresennol ynglyn â cheisiadau i ddatblygu a dderbyniwyd mewn perthynas â hen safle'r ysbyty, Dinbych.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) derbyn yr adroddiad, a*

*(b) llongyfarch y Swyddogion ar y ffordd ddiduedd yr ymdriniwyd â'r mater hwn*.

**1086. <u>DATBLYGU FFERM WYNT YN CYNNWYS 33 TYRBIN GWYNT, ADEILAD IS-ORSAF, 2 FAST MONITRO'R GWYNT, LLWYBRAU MYNEDIAD - TIR I'R DWYRAIN O LYN BRENIG YN NHIR MOSTYN/FOEL GOCH, NANTGLYN</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig yn ymwneud â'r cais uchod am fferm Wynt ac yn gofyn am farn yr aelodau ar y posibilrwydd o ymweld â safleoedd ffermydd gwynt eraill sydd mewn bod ynghyd ag ymweliad safle â safle'r cais presennol er mwyn helpu'r Aelodau wrth iddynt ystyried y cais presennol.

***PENDERFYNWYD** trefnu ymweliadau safle â safle'r cais ac â safle fferm wynt sefydledig, gyda holl Aelodau'r Cyngor Sir yn cael eu gwahodd i ddod a bod y swyddogion yn gwneud trefniadau cludiant priodol ac ar yr amod nad yw Lwfans Presenoldeb i'w dalu.*

**1087. DATBLYGU PARC TECHNOLEG GWYDDONIAETH, TIR I'R GORLLEWIN O ABERGELE RHWNG YR A55 A'R A547**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig yn hysbysu'r Aelodau o'r penderfyniad diweddar gan Gyngor Bwrdeistref Conwy i roi caniatâd cynllunio amlinellol i ddatblygu 14.8 hectar o dir fel Parc Technoleg Gwyddoniaeth ar safle maes glas sydd wedi'i leoli rhwng yr A55 a'r A547 yn union i'r Gorllewin o ardal adeiledig Abergele.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) bod Cyngor Sir Ddinbych yn gwrthwynebu rhoi caniatâd cynllunio a bod Swyddogion i ysgrifennu at y Cynulliad Cymreig yn gofyn bod y cais i'w 'alw i mewn' , a*

*(b) hysbysu Aelodau lleol y Cynulliad Cenedlaethol o wrthwynebiad Sir Ddinbych i'r cais.*

**1088. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda sydd i'w cynnal ar ddydd Mercher 26ain Ebrill, 2000 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle cymeradwyedig ar ddydd Mercher 26ain Ebrill, 2000*

**1089. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig diwygiedig (a gylchredwyd yn y cyfarfod) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 4ydd Mawrth, 2000 a'r 31ain Mawrth, 2000.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.15 a.m.

********************